# Prosiect Gwirfoddoli Strategol Cymru

**Gwirfoddoli ar lefelau'r Bwrdd, Ymddiriedolwyr a Rheoli yn sector chwaraeon cymunedol Cymru: Camau Nesaf wrth Ddarparu Atebion Cydweithredol ar draws Sectorau**


**Mai 2026**


Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 1 | Cyflwyniad |
| 2 | Ynglŷn â'r adroddiad hwn |
| 3 | Grwpiau Gweithredu |
| 4 - 6 | Atebion Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol |
| 7 - 13 | Grŵp Gweithredu: Recriwtio |
| 14 - 18 | Grŵp Gweithredu: Uwchsgilio |
| 19 - 25 | Grŵp Gweithredu: Gwobrwyo a Chydnabod |
| 26 - 31 | Grŵp Gweithredu: Effeithlonrwydd ac Arloesi |
| 32 - 37 | Grŵp Gweithredu: Grymuso Llwybrau ar gyfer Pobl Ifanc a Grwpiau a Ymyleiddiwyd |
| 38 - 40 | Casgliad |
| 41 - 46 | Atodiad |

# Cyflwyniad



Nod Prosiect Gwirfoddoli Strategol Cymru (VWSG) – sy'n cael ei gyflwyno gan Sported a'i ariannu gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) – yw gwella gallu ac effaith gweithgareddau gwirfoddoli ar lefelau bwrdd, ymddiriedolwyr a rheoli ar gyfer grwpiau cymunedol ledled Cymru sy'n darparu chwaraeon a gweithgareddau corfforol.

**Mae wedi cynnwys tri cham hyd yma:**

**1.** gwella dealltwriaeth o dirwedd gwirfoddoli ar y lefel hon o fewn grwpiau cymunedol yng Nghymru, ac adrodd arni.

**2.** darparu cyfres o argymhellion i randdeiliaid yn y sector ar y ffordd orau o gyflawni cynnydd o'r fath mewn capasiti ac effaith.

**3.** cefnogi ymgysylltiad ymhlith rhanddeiliaid i ddatblygu cynlluniau gweithredu clir a chyraeddadwy, a chydweithrediad traws-sector, ar gyfer gweithredu'r argymhellion hyn.

Wrth wneud hynny, mae'r prosiect yn ceisio cysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru, a'i chefnogi. Yn benodol, mae'r prosiect yn canolbwyntio ar sgiliau a datblygiad gwirfoddolwyr (Cymru lewyrchus), sector gwirfoddoli cynhwysol a hygyrch (Cymru sy'n fwy cyfartal), a chymuned o wirfoddolwyr sy'n hyrwyddo ac yn diogelu cymunedau lleol yn ogystal â chymryd rhan mewn chwaraeon ac hamdden (Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu).

# Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau o drydydd cam Prosiect Strategol Gwirfoddoli Cymru. Mae'n crynhoi gwaith pum grŵp gweithredu, y mae pob un yn canolbwyntio ar thema o ganfyddiadau'r ail gam: Recriwtio, uwchsgilio, gwobrwyo a chydnabod, effeithlonrwydd ac arloesi, a llwybrau grymuso ar gyfer pobl ifanc a grwpiau a ymyleiddiwyd. Roedd y grwpiau gweithredu hyn yn cynnwys partneriaid strategol allweddol sy'n ymwneud â'r sectorau chwaraeon, cymunedol a gwirfoddol ledled Cymru.

Mae'r adroddiad yn dechrau gyda chrynodebau byr o argymhellion ac atebion y prosiect, wedi'u trefnu yn ôl lefel ddaearyddol (cenedlaethol, rhanbarthol a lleol). Mae'r cipluniau hyn yn dangos yr amser dosbarthu amcangyfrifedig a'r lefel blaenoriaeth ar gyfer pob argymhelliad, fel y'u hystyriwyd gan y grwpiau gweithredu sy'n canolbwyntio ar bob thema o'r prosiect.

Yna, mae'n crynhoi canfyddiadau'r gweithgorau hyn o ran yr amserlenni, y costau a'r cydweithio traws-sector sy'n angenrheidiol i gyflawni'r argymhellion neu'r atebion. Mae unrhyw gamau penodol i'w cymryd i symud y rhain yn eu blaenau, lle cawsant eu nodi gan y gweithgorau hyn, hefyd wedi'u cynnwys. Mae'r adroddiad yn pwysleisio ymgysylltu ar draws sectorau drwyddi draw, ac yn cloi drwy alw am gydweithio dan arweiniad y sector wrth weithredu argymhellion y prosiect. Mae'n canolbwyntio ar yr angen hwn am gamau gweithredu cydgysylltiedig a pharhaus i gyflawni'r nodau hyn sy'n adlewyrchu llais y sector a'i uchelgais ar gyfer y dyfodol.




# Grwpiau Gweithredu Prosiect Gwirfoddoli Strategol Cymru

Daeth 47 o unigolion o 36 o sefydliadau ynghyd i ffurfio'r pum Grŵp Gweithredu. Wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen, nodwyd bylchau mewn arbenigedd penodol a chafwyd cyfranwyr ychwanegol, gan gynyddu nifer y cyfranogwyr i 51 o unigolion o 40 sefydliad.
Mae'r ystod eang hon o fewnwelediad a phrofiad yn cynrychioli amrywiaeth o safbwyntiau ar draws y dirwedd gymunedol, wirfoddol a chwaraeon yng Nghymru. Mae'n sicrhau bod argymhellion yr adroddiad yn ymarferol, yn berthnasol ac yn wirioneddol gynrychioladol o'r sector ehangach a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.
Hoffai awduron yr adroddiad hwn ddiolch i'r sefydliadau a arweiniodd y Grwpiau Gweithredu hyn ac i bawb a gyfrannodd at waith y grwpiau hynny.

| | |
|---|---|
| **Recriwtio** | SPORTED |
| **Uwchsgilio** | sportwales chwaraeoncymru |
| **Gwobrwyo a Chydnabod** | CIMSPA |
| **Effeithlonrwydd ac Arloesi** | wsa Welsh Sports Association Cymdeithas Chwaraeon Cymru |
| **Grymuso llwybrau ar gyfer pobl ifanc a grwpiau a ymleiddiwyd** | STREET GAMES |

# Cenedlaethol


Mae'r darlun isod yn dangos yr anghenraid (blaenoriaeth) a'r amserlen amcangyfrifedig ar gyfer cyflwyno argymhellion y prosiect ar **lefel genedlaethol**.




1. Newid iaith a chwmpas y swyddi gwirfoddoli i annog pobl ifanc i ymgysylltu â nhw.
2. Cydweithio â chyrff cenedlaethol i symleiddio a chyflymu prosesau a gofynion gweinyddol ar gyfer grwpiau cymunedol.
3. Cefnogi platfform dysgu canolog ar-lein
4. Cydweithio â rhanddeiliaid strategol i greu cymhellion a systemau newydd, neu ehangu rhai presennol, sy'n cydnabod, yn gwobrwyo ac yn dathlu gwirfoddolwyr mewn rolau bwrdd, ymddiriedolwr a rheoli.
5. Annog mwy o bwyslais ar fanteision gwirfoddoli ar gyfer datblygu gyrfa a sgiliau.
6. Datblygu a hyrwyddo cronfa ddata genedlaethol o gyfleoedd gwirfoddoli ar lefelau bwrdd, ymddiriedolwr a rheoli.
7. Annog manteision gwirfoddoli ar gyfer datblygu gyrfa a datblygiad personol.
8. Datblygu uwchsgilio fel rhan annatod o brosesau achredu neu ymgysylltu blynyddol.
9. Tynnu sylw at straeon llwyddiant a chreu ymgyrchoedd sy'n arddangos taith a chyflawniadau unigolion o grwpiau a ymyleiddiwyd sydd wedi llwyddo mewn rolau ar fyrddau ac mewn pwyllgorau.

# Rhanbarthol


Mae'r darlun isod yn dangos yr anghenraid (blaenoriaeth) a'r amserlen amcangyfrifedig ar gyfer cyflwyno argymhellion y prosiect ar **lefel ranbarthol.**




1. Sefydlu rhwydweithiau cymorth cryf i sicrhau datblygiad, cymorth a chadw parhaus gwirfoddolwyr amrywiol ar fyrddau ac mewn pwyllgorau yn y sector chwaraeon.
2. Datblygu cyfleoedd rhwydweithio sy'n cysylltu gwirfoddolwyr mewn rolau bwrdd, ymddiriedolwr a rheoli.
3. Creu cynlluniau rhannu capasiti i recriwtio gwirfoddolwyr i'r un rôl ar draws sefydliadau lluosog.
4. Darparu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a chymorth i aelodau presennol o fyrddau a phwyllgorau er mwyn pwysleisio pwysigrwydd a manteision amrywiaeth a chynhwysiant yn eu sefydliadau.
5. Manteisio ar gynlluniau gwirfoddoli corfforaethol i ddarparu capasiti ychwanegol.
6. Cefnogi mwy o gysylltiadau rhwng grwpiau cymunedol a sefydliadau addysgol.
7. Datblygu cynlluniau mentora ar draws rhanbarthau i gefnogi gwirfoddolwyr mewn rolau bwrdd, ymddiriedolwr a rheoli.
8. Cefnogi mwy o gysylltiadau rhwng grwpiau cymunedol a sefydliadau addysgol yn eu rhanbarth sy'n helpu i ddiwallu anghenion recriwtio gwirfoddolwyr ac anghenion dysgu ar lefel y pwyllgor.
9. Sefydlu rhaglenni datblygu wedi'u targedu at unigolion o grwpiau a ymyleiddiwyd, gan ymgorffori cymorth gan gymheiriaid, mentora a hyfforddiant ffurfiol.

# Lleol

Mae'r darlun isod yn dangos yr anghenraid (blaenoriaeth) a'r amserlen amcangyfrifedig ar gyfer cyflwyno argymhellion y prosiect ar **lefel leol.**




1. Datblygu ac annog prosesau hygyrch sy'n cyd-fynd â chyfrifoldebau eraill gwirfoddolwyr, ac sy'n cydnabod yr hyn y gall gwirfoddolwyr ei wneud gyda'r amser sydd ganddynt.
2. Galluogi pobl ifanc i wirfoddoli ar lefel bwrdd, ymddiriedolwr neu reoli.
3. Cefnogi grwpiau i ddatblygu dulliau recriwtio a chadw sy'n lleihau pwysau amser ar aelodau pwyllgor presennol neu rai sydd â diddordeb.
4. Grymuso pobl ifanc drwy deilwra cyfleoedd, hyfforddiant a phrofiadau gwirfoddoli i gyd-fynd yn well â'u profiadau bywyd a'u hamgylchiadau.
5. Datblygu Byrddau Ieuenctid sy'n gweithredu fel sbardun dysgu i bwyllgorau eraill.
6. Grymuso rolau pobl ifanc drwy roi cyfrifoldeb gwirioneddol iddynt mewn amgylchedd sy'n derbyn ac yn cefnogi.
7. Cynyddu'r gydnabyddiaeth o'r profiad bywyd a'r sgiliau y mae pobl ifanc yn eu cyfrannu at y rolau hyn, yn hytrach na dim ond profiad mwy trad hirdymor o weithio mewn swyddfa.

# Recriwtio

# Recriwtio

Bydd y cynigion yn yr adran hon yn helpu i gefnogi grwpiau cymunedol i recriwtio gwirfoddolwyr ar gyfer rolau bwrdd, rheoli ac ymddiriedolwyr.

Mae’r pwysicaf o'r cynigion hyn, fel y'u nodwyd gan y gweithgor, yn canolbwyntio ar ddarparu platfform clir a hygyrch ar gyfer hysbysebu rolau gwirfoddol ar y lefelau uwch hyn, ac ar ddarparu cymorth traws-sector i leihau'r pwysau amser ar wirfoddolwyr sydd yn y rolau hyn neu sydd â diddordeb ynddynt.

Mae angen mewnbwn gan randdeiliaid ar draws nifer o sectorau ar gamau o'r fath, ac ar yr holl gamau sy'n anelu at gefnogi recriwtio. Dylai cydweithrediad traws-sector o'r fath gynnwys:

| | | |
|---|---|---|
| CGGC | Partneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol | Cynghorau Gwirfoddol Sirol |
| Sported | Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol | Mudiadau addysgol |
| Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid | Awdurdodau Lleol | CIMSPA |





# Recriwtio

## Datblygu a hyrwyddo cronfa ddata genedlaethol o gyfleoedd gwirfoddoli ar lefelau bwrdd, ymddiriedolwr a rheoli

| Blaenoriaeth uchel | Hirdymor (18+ mis) | Lefel Genedlaethol |
|---|---|---|

Ar hyn o bryd, mae'r dirwedd o blatfformau ar gyfer recriwtio gwirfoddolwyr yn dameidiog, gyda nifer o offer digidol yn cyflawni'r dasg hon. Mae creu un porth, hygyrch yn symleiddio'r broses hon, gan alluogi grwpiau cymunedol i ddefnyddio un porth sydd wedi'i hysbysebu a'i hyrwyddo'n dda i hysbysebu eu swyddi gwirfoddoli gwag ar y bwrdd ar draws sawl platfform. Bydd yn cynyddu mynediad at gronfa fawr o wirfoddolwyr medrus ac yn grymuso gwirfoddolwyr posibl i ymgysylltu'n haws â chyfleoedd o'r fath.

**Mae cyflawni hyn yn gofyn am gydweithio traws-sector er mwyn:**

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol i archwilio aliniad â systemau cyfredol ac osgoi dyblygu platfformau.
- Nodi platfform a ffefrir, gan ganolbwyntio ar hwylustod defnydd a chysylltiadau posibl â chronfeydd data presennol.
- Sicrhau bod y platfform yn cael ei gyfathrebu/hyrwyddo i randdeiliaid strategol yn y sector.
- Cyfathrebu/hyrwyddo'r platfform i grwpiau cymunedol.

Gallai rhanddeiliaid ychwanegol i gefnogi camau o'r fath gynnwys Gwirfoddoli Cymru, Cymdeithas Chwaraeon Cymru (WSA), GemauStryd, Reach Volunteering, a Thimau Datblygu Chwaraeon lleol. Disgwylir i unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r argymhelliad ymwneud yn bennaf ag amser staff, cydlynu, cyfathrebu a hyrwyddo unrhyw blatfform terfynol.

# Recriwtio

**Cefnogi grwpiau cymunedol i ddatblygu dulliau recriwtio a chadw sy'n lleihau'r pwysau amser ar aelodau presennol y pwyllgor ac ar y rhai sydd â diddordeb mewn gwirfoddoli ar y lefel hon**

| Blaenoriaeth uchel | Hirdymor (18+ mis) | Lefel Genedlaethol |
|---|---|---|

Rhwystr allweddol i recriwtio a chadw gwirfoddolwyr mewn rolau uwch yn effeithiol yw'r pwysau amser a roddir ar bawb sy'n ymwneud â'r prosesau hyn. Bydd lleihau'r baich amser hwn yn galluogi grwpiau cymunedol i ddatblygu strategaethau recriwtio a chadw mwy effeithiol, ac yn lleihau rhwystr hysbys o ran gwneud cais am y rolau hyn neu barhau ynddynt.

**Mae camau allweddol i gyflawni hyn wrth symud ymlaen yn cynnwys:**

- Cyflwyno disgrifiadau rôl clir ar draws y sector gwirfoddol ar gyfer swyddi bwrdd, rheoli ac ymddiriedolwyr.
- Annog cyfleoedd gwirfoddoli hyblyg ac sy'n benodol i rolau, gyda chyfnodau prawf cyn ymrwymo'n derfynol.
- Datblygu cyfleoedd i wella sgiliau gwirfoddolwyr presennol y bwrdd o ran mentora'r rhai sydd â diddordeb mewn rolau o'r fath yn y dyfodol.

Mae partneriaethau chwaraeon rhanbarthol, cyrff gwirfoddol sirol (CGSau), sefydliadau seilwaith lleol y sector gwirfoddol, a staff datblygu lleol yn rhanddeiliaid allweddol ychwanegol ar gyfer gweithredu ar y cyd o'r fath. Disgwylir i'r costau fod yn isel, ac mae'n debygol y byddant yn gysylltiedig â datblygu adnoddau a'r amser sydd ei angen

# Recriwtio

Gellir darparu rhagor o gymorth i grwpiau cymunedol o ran recriwtio gwirfoddolwyr ar lefelau bwrdd, rheoli ac ymddiriedolwyr drwy'r cynigion canlynol. Gyda'i gilydd, bydd y camau hyn yn cynyddu nifer y gwirfoddolwyr sydd ar gael, yn enwedig o ran cysylltu â phobl ifanc sy'n fodlon ac yn gallu ymgymryd â rolau o'r fath.

**Cefnogi mwy o gysylltiadau rhwng grwpiau cymunedol a sefydliadau addysgol yn eu rhanbarth, gan gynnwys prifysgolion a cholegau**

Canolig

Hirdymor (18+ mis)

Lefel ranbarthol

**Mae camau allweddol i gyflawni hyn wrth symud ymlaen yn cynnwys:**

- Meithrin perthnasoedd a chydweithio'n agos ag undebau myfyrwyr, Active Partnerships a SEP i ymgysylltu â darparwyr Addysg Uwch ac Addysg Bellach.
- Datblygu deunyddiau marchnata wedi'u targedu at bobl ifanc mewn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach.
- Cefnogi cynlluniau i bobl ifanc mewn darparwyr Addysg Uwch ac Addysg Bellach ddysgu gan rwydweithiau presennol o fyrddau, ymddiriedolwyr a rheolwyr.

Mae'n debygol y bydd y costau'n gymedrol, yn ymwneud â chydlynu, datblygu partneriaethau a hyrwyddo cyfleoedd.

# Recriwtio

**Datblygu Byrddau Ieuenctid sy'n gweithredu fel sbardun dysgu i gyfranogwyr symud ymlaen i bwyllgorau mewn sefydliadau eraill**

| Canolig | Hirdymor (18+ mis) | Lefel leol |
|---|---|---|

**Mae camau allweddol i gyflawni hyn wrth symud ymlaen yn cynnwys:**

- Adolygu cynlluniau cyfranogiad byrddau ieuenctid presennol ledled Cymru.
- Ymgysylltu â sefydliadau sydd â phrofiad presennol o gefnogi arweinwyr ifanc, fel Ymddiriedolaeth y Brenin a Gwobr Dug Caeredin.
- Cysylltu â sefydliadau yn y sector ieuenctid yn fwy cyffredinol, fel Plant yng Nghymru.

Mae'n debygol iawn y bydd y costau'n ymwneud â hyfforddiant, hwyluso ac unrhyw adnoddau i gefnogi rhaglenni arweinyddiaeth ieuenctid posibl.





# Recriwtio

**Annog mwy o bwyslais ar fanteision gwirfoddoli ar gyfer datblygu gyrfa a datblygiad personol**

| Canolig | Hirdymor (18+ mis) | Lefel genedlaethol |
|---|---|---|

**Mae camau allweddol i gyflawni hyn wrth symud ymlaen yn cynnwys:**

- Nodi sianeli newydd o fewn cronfeydd recriwtio posibl i hyrwyddo manteision cadarnhaol gwirfoddoli, megis ysgolion busnes.
- Meithrin cydweithrediad traws-sector gyda'r GIG, Llywodraeth Cymru, elusennau iechyd meddwl a chyflogwyr i gasglu a rhannu tystiolaeth o ganlyniadau personol cadarnhaol drwy wirfoddoli.
- Defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol i ymhelaethu ar y neges am ganlyniadau cadarnhaol datblygiad personol drwy wirfoddoli.

Mae'n debygol iawn y bydd costau'n codi o ganlyniad i ymchwil ac arfarnu ychwanegol ynghylch y manteision iechyd a llesiant sy'n deillio o wirfoddoli yn y rolau hyn.



# Uwchsgilio

# Uwchsgilio

Mae'r cynigion yn yr adran hon yn cefnogi datblygu sgiliau gwirfoddolwyr sydd â diddordeb mewn rolau bwrdd, rheoli ac ymddiriedolwr, neu sy'n cyflawni rolau o'r fath ar hyn o bryd.

Nododd y gweithgor ddau gynnig fel rhai â blaenoriaeth uchel yn y maes hwn. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar blatfform dysgu ar-lein canolog ac ar sicrhau bod cyfleoedd, hyfforddiant a phrofiadau gwirfoddoli yn diwallu anghenion sy'n adlewyrchu profiadau bywyd pobl ifanc yn fwy effeithiol.

Mae'r rhanddeiliaid sy'n berthnasol i bob argymhelliad unigol yn cael eu hamlygu drwy gydol yr adran hon, ond y prif bartner sector a nodwyd ar gyfer y thema hon oedd:

Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol



# Uwchsgilio

**Cefnogi rhanddeiliaid cenedlaethol i ddatblygu a hyrwyddo platfform dysgu ar-lein canolog, ac i ymgysylltu'n weithredol â grwpiau cymunedol drwyddo**

| Blaenoriaeth uchel | Tymor canolig (7-18 mis) | Lefel genedlaethol |
|---|---|---|

Gall dod o hyd i adnoddau i ddatblygu sgiliau sy'n berthnasol i rolau bwrdd, rheoli ac ymddiriedolwyr fod yn broses heriol ac yn un sy'n cymryd llawer o amser i wirfoddolwyr. Mae platfform dysgu ar-lein canolog, sy'n cael ei hyrwyddo ar draws y sector gwirfoddol, yn darparu pecyn cymorth hygyrch i wirfoddolwyr unigol ddatblygu eu sgiliau yn eu hamser eu hunain. Mae hefyd yn gweithredu fel banc adnoddau ar gyfer grwpiau cymunedol, gan ddarparu templedi, offer a disgrifiadau rôl cyson i gefnogi gwaith gweinyddu eu grwpiau.

**Y cam mwyaf enbyd o bell ffordd wrth wireddu'r cynnig prosiect hwn yw:**

- Gweithredu ymarfer cwmpasu i fapio'r llwyfannau dysgu ar-lein presennol a'r sefydliadau sy'n eu cynnal ar hyn o bryd.

Mae'n bwysig nodi y bydd amgylchiadau grwpiau unigol – megis y gamp neu'r gweithgaredd corfforol, y corff llywodraethu cenedlaethol cysylltiedig, anghenion a chapasiti, ac ati – yn effeithio ar ymgysylltu ag unrhyw blatfform o'r fath. Bydd yr ymarfer cwmpasu yn darparu gwersi gwerthfawr ynghylch yr hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd a'r defnydd o lwyfannau o'r fath. Mae angen cefnogaeth gan gyrff llywodraethu cenedlaethol chwaraeon, CGGC, Chwaraeon Cymru, WSA a CIMSPA. Mae'n debygol y bydd y costau'n isel ac y byddent yn deillio o'r ymarfer cwmpasu.

# Uwchsgilio

**Galluogi pobl ifanc i wirfoddoli ar lefel bwrdd, ymddiriedolwr neu reolaeth drwy deilwra cyfleoedd, hyfforddiant a phrofiadau gwirfoddoli i ddiwallu eu profiad bywyd a'u hamgylchiadau**

| Blaenoriaeth uchel | Hirdymor (18+ mis) | Lefel leol |
|---|---|---|

Datgelodd ymchwil cychwynnol i'r prosiect y gall diffyg hyder a'r canfyddiad o ddiffyg profiad mewn rolau gwirfoddoli uwch gyfyngu ar ymgysylltiad pobl ifanc â rolau o'r fath. Bydd teilwra cyfleoedd rôl a hyfforddiant i adlewyrchu eu profiad bywyd a'u hamgylchiadau presennol yn grymuso mwy o bobl ifanc i gymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol mewn swyddi bwrdd, rheoli ac ymddiriedolwr.

**I wneud hynny, nododd y gweithgor y camau nesaf hollbwysig hyn:**

- Sicrhau eu bod yn sylweddol wahanol i raglenni uwchsgilio presennol ar draws y sector chwaraeon a gweithgaredd corfforol, gan fod rhaglenni o'r fath yn tueddu i ganolbwyntio mwy ar hyfforddi.
- Cefnogi grwpiau cymunedol i ddatblygu pwyllgorau a rolau neu bortffolios arweinyddiaeth sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc.

Mae cydweithrediad agos rhwng grwpiau cymunedol a chyrff llywodraethu cenedlaethol yn angenrheidiol i gyflawni'r camau gweithredu hyn.

# Uwchsgilio

Mae dau gynnig pellach, a adolygwyd gan y gweithgor uwchsgilio, yn amlinellu'r ffyrdd y gall cydweithio traws-sector gefnogi uwchsgilio gwirfoddolwyr mewn rolau bwrdd, ymddiriedolwr a rheoli yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Datblygu uwchsgilio fel rhan annatod o brosesau achredu neu ymgysylltu blynyddol**

Canolig | Hirdymor (18+ mis) | Lefel genedlaethol

- Cefnogi cyrff llywodraethu cenedlaethol chwaraeon i adolygu ac uwchraddio prosesau cysylltu er mwyn ymgorffori gwelliant sgiliau gwirfoddolwyr.

**Datblygu cynlluniau mentora ar draws rhanbarthau i gefnogi gwirfoddolwyr mewn rolau bwrdd, ymddiriedolwr a rheoli**

Canolig | Tymor canolig (7-18 mis) | Lefel ranbarthol

- Mapio'r dirwedd bresennol o gynlluniau mentora ar draws partneriaid/chwaraeon/gweithgareddau, gan gysylltu â Phartneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol, Awdurdodau Lleol, a grwpiau chwaraeon cymunedol unigol i wneud hynny.
- Casglu gwybodaeth a gwersi o'r ymarfer hwn ac o unrhyw enghreifftiau cyfredol eraill o arfer da, gan gynnwys rhai gan sefydliadau perthnasol sydd â chynlluniau mentora ar waith eisoes.

# Gwobrwyo a Chydnabod

# Gwobrwyo a Chydnabod

Mae'r cynigion hyn yn canolbwyntio ar y camau nesaf a'r cydweithio rhwng rhanddeiliaid sydd ei angen i gyflawni cynigion sy'n cynyddu cymhellion i wirfoddolwyr mewn rolau bwrdd, rheolaeth ac ymddiriedolwyr, a chydnabyddiaeth ohonynt.

Y camau nesaf hollbwysig yn y maes hwn yw creu neu ddatblygu dulliau presennol o gydnabod, gwobrwyo a dathlu'r rhai sy'n gwirfoddoli ar lefelau bwrdd, ymddiriedolwyr a rheoli, a datblygu cynlluniau gwirfoddoli corfforaethol o fewn cymunedau i ddarparu capasiti ychwanegol.

Mae gweithredu'r cynigion hyn yn gofyn am gydweithio agos ar draws sectorau ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y partneriaid sector canlynol:

- Chwaraeon Cymru
- Partneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol
- Llywodraeth Cymru
- Mudiadau'r Sector Gwirfoddol



# Gwobrwyo a Chydnabod

**Cydweithio â rhanddeiliaid strategol ledled Cymru i greu cymhellion a systemau newydd, neu ehangu rhai presennol, sy'n cydnabod, yn gwobrwyo ac yn dathlu gwirfoddolwyr mewn rolau bwrdd, ymddiriedolwr a rheoli**

| Blaenoriaeth uchel iawn | Hirdymor (18+ mis) | Lefel genedlaethol |
|---|---|---|

Er bod cyfleoedd yn bodoli eisoes i gydnabod a gwobrwyo'r gwirfoddolwyr anhygoel sy'n cefnogi grwpiau cymunedol ledled Cymru, mae'n hanfodol darparu cyfleoedd o'r fath i'r rhai sy'n rhoi o'u hamser yn benodol ar lefelau pwyllgor, rheoli ac ymddiriedolwyr.

**Nododd y gweithgor nifer o gamau nesaf i gyflawni'r canlyniad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:**

- Mapio - a dysgu o - ddulliau presennol o olrhain, gwobrwyo a chydnabod gwirfoddolwyr ar draws y sector.
- Darparu cymorth i sefydliadau bach sydd â chylch gwaith cenedlaethol i fonitro, rheoli a gwobrwyo gwirfoddolwyr..
- Ymgysylltu â systemau gwobrwyo presennol yng Nghymru, fel Gwobrau Dewi Sant.

Mae gwneud hynny yn gofyn am ymgysylltu traws-sector ar lefel genedlaethol yng Nghymru. Mae cydweithio â nifer o bartneriaid a rhanddeiliaid yn hanfodol er mwyn deall ac adeiladu ar y dirwedd bresennol o wobrwyo a chydnabod gwirfoddolwyr yn effeithiol.

# Gwobrwyo a Chydnabod

**Mae hyn yn cynnwys ymwneud â'r canlynol:**

- Sefydliadau chwaraeon a gweithgareddau corfforol sy'n olrhain ac yn monitro ymgysylltiad gwirfoddolwyr ar hyn o bryd, fel 'parkrun' a Chymdeithas Bêl-droed Cymru.
- Partneriaid digidol a marchnata sy'n gyfrifol am systemau gwobrwyo a chydnabod presennol.
- Partneriaid y cyfryngau cenedlaethol, fel BBC Sport Cymru.

Gan ystyried cyfyngiadau cyllidebol, nododd y gweithgor y gallai dull mwy cost-effeithiol o gefnogi gwobrwyo a chydnabod ymdrechion fod yn fodd o gynnal digwyddiad annibynnol ar draws y sector, yn hytrach na bod cyrff llywodraethu cenedlaethol a sefydliadau eraill yn cynnal digwyddiadau ar wahân.



# Gwobrwyo a Chydnabod

**Manteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli corfforaethol o fewn cymunedau i ddarparu capasiti ychwanegol**

| Blaenoriaeth uchel | Hirdymor (18+ mis) | Lefel ranbarthol |
|---|---|---|

Mae cynlluniau gwirfoddoli corfforaethol yn cynnig ateb presennol ar gyfer meithrin gallu, gan ddiwallu anghenion grwpiau cymunedol o ran recriwtio gwirfoddolwyr a sgiliau. Fodd bynnag, nid yw'n hollol glir i ba raddau y mae'r cynlluniau hyn ar hyn o bryd yn cyflawni o ran cyfleoedd sydd wedi'u targedu'n benodol at lefel y bwrdd, rheoli ac ymddiriedolwyr. Bydd y cynnig hwn yn cefnogi mwy o weithwyr ar draws sefydliadau yng Nghymru i wirfoddoli mewn rolau uwch sy'n hanfodol ar gyfer gweithrediad llwyddiannus grwpiau chwaraeon cymunedol yn eu rhanbarth.

**Amlinellodd y gweithgor broses gychwynnol dau gam ar gyfer cyflwyno'r ateb hwn:**

- Mapio cynlluniau gwirfoddoli corfforaethol presennol ar draws rhanbarthau Cymru.
- Cyflwyno ymgyrch, drwy LinkedIn, sy'n codi ymwybyddiaeth o gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, astudiaethau achos llwyddiannus, a sut y gellir efelychu cynlluniau o'r fath.

Caiff partneriaid ychwanegol eu nodi drwy'r broses fapio, ond mae CGGC a gwasanaethau gwirfoddol cymunedol yn rhanddeiliaid cychwynnol allweddol ar gyfer y dull hwn. Byddai costau'n gysylltiedig ag amser pobl ac adnoddau marchnata sy'n angenrheidiol i ddatblygu a chyflwyno'r ymgyrch LinkedIn.

# Gwobrwyo a chydnabod

Mae cymorth ychwanegol i gynyddu'r wobr a'r gydnabyddiaeth i wirfoddolwyr – ar lefelau'r bwrdd, rheoli ac ymddiriedolwyr – yn cynnwys y cynigion prosiect canlynol.

**Grymuso rôl pobl ifanc drwy roi cyfrifoldeb go iawn iddynt mewn amgylchedd sy'n croesawu ac yn cefnogi, er enghraifft drwy swyddi â hawl pleidleisio ar fyrddau ar gyfer pobl ifanc**

| Canolig | Hirdymor (18+ mis) | Lefel leol |
|---|---|---|

- Cyflwyno rhaglen beilot, ar y cyd â CIMSPA a darparwr Addysg Bellach sydd â diddordeb, sy'n cefnogi lleoliadau i bobl ifanc mewn grwpiau cymunedol.
- Canolbwyntio'r rhaglen ar feysydd sy'n berthnasol i rolau gwirfoddolwyr uwch, megis marchnata, rheoli, cyfleusterau a gweithrediadau.
- Cysylltu ag Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid, partneriaethau chwaraeon rhanbarthol, a'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddatblygu'r rhaglen hon ymhellach.

Mae'n debygol y bydd y costau'n cynnwys amser pobl ac adnoddau i gyflawni'r rhaglen beilot.

# Gwobrwyo a Chydnabod

**ynyddu'r gydnabyddiaeth o'r profiad bywyd a'r sgiliau y mae pobl ifanc yn eu cyfrannu at y rolau hyn, yn hytrach na dim ond profiad mwy traddodiadol a hirdymor o weithio mewn swyddfa**

| Canolig | Hirdymor (18+ mis) | Lefel leol |
|---|---|---|

- Ymgynghori â phaneli ieuenctid presennol ar draws addysg, cyrff llywodraethu cenedlaethol, a sectorau ieuenctid cenedlaethol i ddeall yn well beth yw 'cydnabyddiaeth gynyddol' o brofiad/sgiliau byw i bobl ifanc.

Gellir cyflawni hyn orau ar y cyd ag unrhyw sefydliad yn y sector chwaraeon a gweithgaredd corfforol sydd ar hyn o bryd â bwrdd neu banel ieuenctid brwdfrydig. Mae'r costau'n ymwneud yn bennaf ag amser pobl wrth gynnal ymgynghoriad o'r fath.



# Effeithlonrwydd ac Arloesi

# Effeithlonrwydd ac Arloesi

Mae'r camau gweithredu a'r cydweithio â rhanddeiliaid canlynol yn cefnogi meithrin gallu gwirfoddolwyr sy'n ymgymryd â rolau bwrdd, rheoli ac ymddiriedolwr, yn ogystal â gwella'r prosesau ar eu cyfer.

Cafodd pob cynnig yn y maes hwn ei raddio fel blaenoriaeth uchel gan y gweithgor. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod her hollbwysig o ran gwirfoddoli ar lefel y bwrdd, rheoli neu ymddiriedolwyr yn ymwneud â chapasiti cyfyngedig neu gyfleoedd nad ydynt yn hygyrch. Mae'r cynigion canlynol yn helpu i leihau'r baich amser ar wirfoddolwyr, gan gefnogi gwirfoddolwyr – a'u grwpiau – i wneud y mwyaf o'r amser sydd ganddynt.

Mae pwysigrwydd yr argymhellion hyn ar gyfer cefnogi gwirfoddolwyr a'u grwpiau cymunedol yn amlwg yn y cydweithio traws-sector sydd ei angen i fwrw ymlaen â'r argymhellion hynny. Nodir bod angen nifer o randdeiliaid ar gyfer ymgysylltu traws-sector ar y thema hon, gan gynnwys y canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| CGGC | Partneriaethau chwaraeon rhanbarthol | Chwaraeon Cymru |
| Sported | Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol | Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid |
| WSA | Partneriaid cenedlaetho | CIMSPA |

# Effeithlonrwydd ac Arloesi

**Cydweithio â chyrff cenedlaethol i symleiddio a chyflymu prosesau a gofynion gweinyddol ar gyfer grwpiau cymunedol**

| Blaenoriaeth uchel | Tymor canolig (7-18 mis) | Lefel genedlaethol |
| --- | --- | --- |

- Dod â chyrff cenedlaethol ynghyd mewn un lle (rhithwir neu wyneb yn wyneb) i nodi prosesau neu ofynion cyffredin ac i ddysgu oddi wrth ei gilydd er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a dod o hyd i gyfleoedd i gydweithio ac arloesi.
- Archwilio llwyfannau digidol presennol i wneud y mwyaf o'r broses symleiddio, fel Club Solutions, WSA Club Hub a Support4Sport.

Mae partneriaid ychwanegol a all gynorthwyo yn y maes hwn yn cynnwys yr Asiantaeth Llywodraethu Chwaraeon, yr Urdd, sefydliadau cymorth ehangach yn y sector gwirfoddol, a chyrff llywodraethu cenedlaethol chwaraeon. Amcangyfrifir bod y costau'n fach iawn ar gyfer y cydweithio traws-sector (llai na £5,000) ond bod datblygu ac integreiddio system ddigidol yn ychwanegu at y gost (£20,000 -£30,000).

# Effeithlonrwydd ac Arloesi

**Newid iaith a chwmpas y swyddi gwirfoddoli i annog pobl ifanc i ymgysylltu â nhw**

| Blaenoriaeth uchel | Tymor canolig (7-18 mis) | Lefel Genedlaethol |
|---|---|---|

- Sicrhau bod rolau/teitlau yn fwy deniadol i bobl ifanc neu wedi'u targedu'n well atynt.
- Ystyried y Gymraeg i sicrhau ymgysylltiad neu gynhwysiant cadarnhaol.
- Darparu enghreifftiau drwy weminarau ac astudiaethau achos i ddangos arfer da ar bob lefel, gan ddylanwadu ar sefydliadau i geisio newid yn rhagweithiol yn y maes hwn.

Nododd y gweithgor yr Urdd fel rhanddeiliad allweddol ar gyfer y cynnig hwn, a nodwyd bod y costau'n debygol o ganolbwyntio ar yr amser a'r adnoddau ar gyfer cydweithio traws-sector (llai na £10,000).



# Effeithlonrwydd ac Arloesi

**Creu cynlluniau rhannu capasiti i recriwtio gwirfoddolwyr i'r un rôl ar draws sefydliadau lluosog**

| Blaenoriaeth uchel | Tymor canolig (7-18 mis) | Lefel ranbarthol |
|---|---|---|

- Cryfhau tîm ymgynghorwyr gwirfoddol Sported, gan ddatblygu cronfa ehangach o wirfoddolwyr medrus iawn sy'n gallu cefnogi pwyllgorau
- Datblygu platfform WSA Support4Sport i gefnogi marchnata rolau gwirfoddolwyr.
- Dylid ystyried cymwysterau/iaith micro i sicrhau bod y prosiect yn siarad ag amrywiaeth o bobl.
- Datblygu cyfleoedd rhwydweithio i wirfoddolwyr mewn rolau bwrdd, rheoli ac ymddiriedolwr.

Mae cost camau o'r fath yn ymwneud yn bennaf â datblygu unrhyw wasanaethau digidol sy'n gysylltiedig â'r cynnig, ond nododd y gweithgor ei bod yn hanfodol dyrannu costau priodol ar gyfer ymgysylltu â chymunedau lleol, Partneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol a rhwydwaith Ymgynghorwyr Gwirfoddol Sported. Mae partneriaid allweddol i'w cynnwys yn y cynnig hwn yn cynnwys yr Urdd a'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Chwaraeon ac Iechyd.

# Effeithlonrwydd ac Arloesi

**Datblygu cyfleoedd rhwydweithio ar draws rhanbarthau sy'n dod a gwirfoddolwyr mewn rolau bwrdd, ymddiriedolwr a rheoli ynghyd**

| Blaenoriaeth Uchel | Tymor canolig (7-18 mis) | Lefel Ranbarthol |
|---|---|---|

- Adeiladu ar rwydweithiau rhanbarthol presennol Sported, mewn cydweithrediad â Phartneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol, i wella cyfleoedd rhannu gwybodaeth, rhwydweithio a chydweithio sy'n benodol i wirfoddolwyr bwrdd, rheoli ac ymddiriedolwyr.

Amcangyfrifodd y gweithgor gost rhwydweithiau rhanbarthol o'r fath rhwng £10,000 - £30,000

**Datblygu ac annog prosesau hygyrch sy'n cyd-fynd â chyfrifoldebau eraill gwirfoddolwyr, ac sy'n cydnabod yr hyn y gall gwirfoddolwyr ei wneud gyda'r amser sydd ganddynt**

| Blaenoriaeth Uchel | Tymor Canolig (7-18 mis) | Lefel Leol |
|---|---|---|

- Defnyddio ap WSA Support4Sport fel platfform ar gyfer astudiaethau achos a gweminarau sy'n canolbwyntio ar arfer da mewn rolau cymorth sy'n cyd-fynd ag amser sydd ar gael i wirfoddolwyr.
- Canolbwyntio ar adrodd straeon da i ddylanwadu ar grwpiau cymunedol wrth lunio gofynion y rôl yn y modd hwn.

Mae costau'r dull hwn wedi'u rhannu rhwng cydweithredu (amcangyfrifir rhwng £5,000 - £10,000) a datblygu/marchnata ap Support4Sport at y diben hwn (amcangyfrifir rhwng £20,000 - £30,000).

# Grymuso Llwybrau ar gyfer Pobl Ifanc a Grwpiau a Ymyleiddiwyd

# Grymuso Llwybrau ar gyfer Pobl Ifanc a Grwpiau a Ymyleiddiwyd

Mae'r cynigion hyn yn cynyddu cyfleoedd ac yn gwella profiadau i bobl ifanc a chymunedau a ymyleiddiwyd wirfoddoli ar lefelau'r bwrdd, rheolaeth ac ymddiriedolwyr. Mae annog mwy o bobl ifanc a phobl o grwpiau a ymyleiddiwyd i wirfoddoli mewn grwpiau chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn eu hardal leol o fudd i unigolion a'u cymunedau fel ei gilydd.

Mae'n ehangu'r gronfa o wirfoddolwyr posibl ar gyfer y rolau clwb hanfodol hyn, yn meithrin hyder a sgiliau ymhlith pobl nad ydynt fel arfer yn gallu neu ar gael i ymgymryd â'r rolau hyn, ac yn rhoi budd i grwpiau drwy amrywiaeth ehangach o brofiadau bywyd a setiau sgiliau gan bobl yn eu cymuned.

Diffiniwyd yr holl gynigion isod fel blaenoriaethau uchel gan grŵp gweithio'r prosiect, gan ddangos pa mor bwysig yw annog – a chefnogi – mwy o bobl ifanc a phobl o grwpiau a ymyleiddiwyd i wirfoddoli ar lefelau'r bwrdd, rheoli ac ymddiriedolwyr. Nododd y gweithgor y canlynol fel y prif bartner yn y sector i gefnogi cydweithio a chyflawniad yn ymwneud â'r argymhellion yn y maes hwn:

CGGC



# Grymuso Llwybrau ar gyfer Pobl Ifanc a Grwpiau a Ymyleiddiwyd

### Annog mwy o bwyslais ar fanteision gwirfoddoli ar gyfer datblygu gyrfa a sgiliau

| Blaenoriaeth uchel | Hirdymor (18+ mis) | Lefel Genedlaethol |
| --- | --- | --- |

- Mapio arfer da presennol, gan gynnwys Cyngor Ieuenctid FAW a rhaglenni gan y Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid a GemauStryd.
- Ymgynghori ymhellach â phobl ifanc i sicrhau bod y cynnig hwn yn diwallu eu hanghenion.

Er na nodwyd unrhyw gostau penodol ar gyfer y cynnig hwn, pwysleisiodd y gweithgor y bydd cyflawni camau o'r fath yn gofyn am ymgysylltu'n agos â sefydliadau addysg a sefydliadau yn y sector ieuenctid.

### ru ymwybyddiaeth, gwybodaeth a chymorth i aelodau presennol o fyrddau a phwyllgorau er mwyn pwysleisio pwysigrwydd a manteision amrywiaeth a chynhwysiant yn eu sefydliadau

| Blaenoriaeth uchel | Hirdymor (18+ mis) | Lefel ranbarthol |
| --- | --- | --- |

- Cysylltu â rhanddeiliaid sydd â diddordeb mewn newid ehangach o'r fath – fel Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru a Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol – i archwilio'r sgyrsiau hyn.
- Myfyrio gyda phartneriaid ar draws sectorau ynghylch a yw newid diwylliannol ehangach o'r fath o fewn cylch gwaith y prosiect hwn.

# Grymuso Llwybrau ar gyfer Pobl Ifanc a Grwpiau a Ymyleiddiwyd

**Sefydlu rhwydweithiau cymorth cryf i sicrhau datblygiad, cymorth a chadw parhaus gwirfoddolwyr amrywiol ar fyrddau ac mewn pwyllgorau yn y sector chwaraeon**

| | | |
|---|---|---|
| Blaenoriaeth uchel | Tymor canolig (7-18 mis) | Lefel ranbarthol |

- Adeiladu ar arferion da presennol i sicrhau perthnasoedd mwy strategol rhwng y sectorau perthnasol sydd â'r adnoddau a'r diddordeb i gyflawni rhwydwaith o'r fath.
- Mapio'r gefnogaeth bresennol yn y maes hwn, gan ymgynghori â sefydliadau ar draws y sectorau iechyd, chwaraeon, llesiant ac ieuenctid

**Galluogi pobl ifanc i wirfoddoli ar lefel bwrdd, ymddiriedolwr neu reoli**

| | | |
|---|---|---|
| Blaenoriaeth uchel | Hirdymor (18+ mis) | Lefel leol |

- Ystyried y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Plant yng Nghymru a FAW yn y maes hwn
- Cefnogi grwpiau cymunedol i wella neu greu amgylcheddau lle mae pobl ifanc yn teimlo'n gyfforddus yn rhoi adborth yn eu grŵp.
- Cefnogi grwpiau cymunedol a phobl ifanc yn eu hardal leol i nodi a chyfleu modelau rôl presennol.

# Grymuso Llwybrau ar gyfer Pobl Ifanc a Grwpiau a Ymyleiddiwyd

**Sefydlu rhaglenni datblygu wedi'u targedu at unigolion o grwpiau a ymyleiddiwyd, gan ymgorffori cymorth gan gymheiriaid, mentora a hyfforddiant ffurfiol**

| Blaenoriaeth ganolig | Tymor canolig (7-18 mis) | Lefel ranbarthol |
|---|---|---|

- Ymgynghori ymhellach â phobl ifanc i ddeall eu safbwyntiau ar arweinyddiaeth a datblygiad (yn hytrach na chanolbwyntio ar safbwyntiau gwirfoddolwyr hŷn yn unig).
- Cynnal ymarfer cwmpasu i fapio rhaglenni datblygu presennol.

Nododd y gweithgor amrywiaeth o bartneriaid sy'n addas ar gyfer cydweithio o amgylch y nod hwn, gan gynnwys pobl ifanc eu hunain, eu grwpiau cymunedol, a sefydliadau cymorth yn y sector cyhoeddus. Nodwyd CGGC fel sefydliad sydd mewn sefyllfa dda i fwrw ymlaen â'r cynnig hwn.

**Cefnogi mwy o gysylltiadau rhwng grwpiau cymunedol a sefydliadau addysgol yn eu rhanbarth, gan gynnwys prifysgolion a cholegau, sy'n helpu i ddiwallu**

| Blaenoriaeth uchel | Hirdymor (18+ mis) | Lefel ranbarthol |
|---|---|---|

- Creu rhaglen llysgenhadon ifanc sy'n seiliedig ar y gymuned, gan ddysgu oddi wrth – ac adeiladu ar – enghreifftiau presennol o gynlluniau llysgenhadon ifanc sydd ar waith.

Mae rhaglen o'r fath yn gofyn am ymgysylltiad gan amrywiaeth o randdeiliaid ar lefelau gwahanol. Roedd y gweithgor yn dadlau dros ddechrau ar lefel llywodraeth Cymru ac yna rhaeadru drwy bartneriaid rhanbarthol, gan gynnwys sefydliadau addysg, sefydliadau'r sector ieuenctid, a grwpiau cymunedol.

# Grymuso Llwybrau ar gyfer Pobl Ifanc a Grwpiau a Ymyleiddiwyd

**Tynnu sylw at straeon llwyddiant a chreu ymgyrchoedd sy'n arddangos taith a chyflawniadau unigolion o grwpiau a ymyleiddiwyd sydd wedi llwyddo mewn rolau ar fyrddau ac mewn pwyllgorau**

| Blaenoriaeth uchel | Tymor canolig (7-18 mis) | Lefel genedlaethol |
|---|---|---|

- Cysylltu ag ymgyrchoedd presennol sy'n ymwneud â'r thema hon, fel IWillweek, Wythnos yr Ymddiriedolwyr, Wythnos y Gwirfoddolwyr, Diwrnod Rhyngwladol y Gwirfoddolwyr, Wythnos Gwirfoddolwyr Myfyrwyr, a Dydd Gŵyl Dewi.
- Datblygu dealltwriaeth fwy manwl gywir o sut olwg sydd ar lwyddiant yn y cyd-destun hwn.
- Defnyddio lle canolog i rannu enghreifftiau o'r arfer da hwn ar waith.

Mae rhanddeiliaid yn y sectorau addysg ac ieuenctid yn bartneriaid delfrydol ar gyfer y gwaith hwn.



# Casgliad

# Casgliad

Mae'r adroddiad hwn yn garreg filltir bwysig yn y Prosiect Gwirfoddoli Strategol yng Nghymru, gan symud y tu hwnt i fewnwelediad ac argymhellion i gyfnod a nodweddir gan gydweithio, perchnogaeth a gweithredu.

Mae gan yr atebion a'r camau gweithredu cysylltiedig a amlinellir drwy gydol y ddogfen hon bwysau a hygrededd arbennig, gan na chawsant eu datblygu ar wahân. Yn hytrach, maent yn ganlyniad proses ar y cyd, wedi'u llunio, eu profi a'u mireinio gan grŵp amrywiol o randdeiliaid o ar draws y sectorau chwaraeon, gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru.

Mae'r ethos cydweithredol hwn yn sail i'w dilysrwydd. Mae'n sicrhau bod y dulliau arfaethedig yn seiliedig ar brofiad gweithredol go iawn, yn adlewyrchu gwir anghenion, ac yn cyd-fynd â realiti ymarferol y rhai sy'n gyfrifol am eu cyflawni. Yn hollbwysig, nid yn unig y mae'r atebion yn gadarn yn gysyniadol, ond maent yn eiddo i'r sector. Mae'r Gweithgorau wedi dod â sefydliadau ynghyd sydd â'r ddealltwriaeth, y dylanwad a'r gallu i sicrhau newid, ac mae'r canlyniadau'n adlewyrchu ymrwymiad ar y cyd i wneud cynnydd.

Mae cyfle clir, a chyfrifoldeb ar y cyd yn wir, i randdeiliaid ledled Cymru adeiladu ar y gwaith hwn. Mae'r camau gweithredu a nodwyd yn cyd-fynd yn gadarn â chenadaethau, sgiliau a galluoedd y rhai dan sylw, gan ddarparu sylfaen gref y gall sefydliadau arwain neu gyfrannu'n weithredol ohoni. Yn yr ystyr hwn, ni ddylid ystyried yr adroddiad hwn yn ddiweddbwynt, ond yn hytrach yn sbardun sy'n annog partneriaid i symud ymlaen yn hyderus, gan wybod bod cyfeiriad y daith wedi'i lywio gan y sector, ar gyfer y sector.

Fodd bynnag, mae hi'r un mor bwysig gydnabod natur yr her sydd o'n blaenau. Nid yw cryfhau gwirfoddoli ar lefelau bwrdd, ymddiriedolwyr a rheoli o fewn chwaraeon cymunedol yn broblem y gellir ei datrys drwy un ymyriad, nac ychwaith gan unrhyw un sefydliad sy'n gweithredu ar ei ben ei hun. Mae'r darlun a gyflwynir yma yn debycach i bos jig-so nag i lwybr llinellol. Mae pob cam gweithredu - boed yn canolbwyntio ar recriwtio, uwchsgilio, cydnabod, arloesi neu gynhwysiant - yn rhan hanfodol. Bydd cynnydd yn dibynnu ar ba mor effeithiol y caiff y rhannau hyn eu dwyn ynghyd drwy gydlynu, dealltwriaeth gyffredin a chydweithio parhaus.

# Casgliad

Nid oes ateb hud a lledrith. Yn hytrach, bydd newid ystyrlon a pharhaol yn deillio o arweinyddiaeth hael ac ymdrechion cyfunol sector ymroddedig sydd wedi'i gysylltu'n dda.

Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd parhau i weithio mewn partneriaeth. Mae cryfder sector chwaraeon a gwirfoddoli Cymru yn ei amrywiaeth, gan gynnwys cyrff llywodraethu cenedlaethol, sefydliadau cymunedol, cyrff seilwaith, sefydliadau addysgol a phartneriaid yn y sector cyhoeddus. Mae gan bob un rôl unigryw i'w chwarae, gan gynnig arbenigedd, adnoddau a safbwyntiau gwahanol. Drwy harneisio'r nerth cyfunol hwn, a thrwy alinio ymdrechion o amgylch y blaenoriaethau cyffredin a amlinellir yn yr adroddiad hwn, mae cyfle gwirioneddol i greu system wirfoddoli sy'n fwy gwydn, yn fwy cynhwysol ac yn fwy effeithiol. Un sy’n cynnal chwaraeon cymunedol yn ogystal â gwella'r gallu i sicrhau effaith gymdeithasol ehangach, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Wrth wraidd yr agenda gyfan hon mae gwirfoddoli ei hun. Gwirfoddoli yw'r sylfaen y mae chwaraeon cymunedol yng Nghymru wedi'u hadeiladu arni, ac nid yw hyn yn amlycach yn unman nag yn y cyfraniadau – sy'n aml yn anweledig – gan y rhai sy'n gwasanaethu mewn rolau llywodraethu ac arwain. Mae aelodau’r bwrdd, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr pwyllgorau yn geidwaid clybiau a sefydliadau: maent yn darparu cyfeiriad, yn sicrhau cynaliadwyedd, ac yn galluogi cyfleoedd i gymryd rhan i fodoli a ffynnu. Yn rhy aml, ni chydnabyddir eu heffaith, ac eto mae eu rôl yn hollbwysig nid yn unig i weithrediad effeithiol sefydliadau unigol, ond i iechyd a llwyddiant hirdymor y sector yn ei gyfanrwydd.

Felly, nid yw cydnabod, cefnogi a datblygu'r grŵp hwn o wirfoddolwyr yn ddewisol; mae'n hanfodol. Drwy fuddsoddi yn eu recriwtio, eu sgiliau, eu profiadau a'u cydnabyddiaeth, mae'r sector yn cryfhau ei sylfeini ei hun. At hynny, mae'n gwella ei allu i ysgogi newid cymdeithasol hirdymor, gan greu cyfleoedd mwy cynhwysol, cymunedau cryfach a chanlyniadau llesiant gwell ledled Cymru.

I gloi, mae gwaith y Grwpiau Gweithredu yn darparu fframwaith clir a chredadwy ar gyfer cynnydd. Mae'n adlewyrchu llais y sector a'i uchelgais ar gyfer y dyfodol. Yr her nawr yw troi'r weledigaeth ar y cyd hon yn gamau gweithredu cydgysylltiedig a pharhaus, gan fanteisio ar rym cyfunol y sector i osod darnau'r jig-so ynghyd a chyflawni newid ystyrlon a pharhaol.

# Atodiad

# Atodiad: Recriwtio

| Recriwtio | | | |
|---|---|---|---|
| Argymhelliad/ateb | Lefel blaenoriaeth | Maes ffocws | Amserlen |
| Cronfa ddata genedlaethol o gyfleoedd gwirfoddoli ar lefelau bwrdd, ymddiriedolwr a rheoli. | Uchel | Cenedlaethol | Hir (18+ mis) |
| Cefnogi grwpiau i ddatblygu dulliau recriwtio a chadw sy'n lleihau pwysau amser ar aelodau pwyllgor presennol neu rai sydd â diddordeb. | Uchel | Lleol | Hir (18+ mis) |
| Cefnogi mwy o gysylltiadau rhwng grwpiau cymunedol a sefydliadau addysgol. | Canolig | Rhanbarthol | Hir (18+ mis) |
| Datblygu Byrddau Ieuenctid sy'n gweithredu fel sbardun dysgu i bwyllgorau eraill. | Canolig | Lleol | Hir (18+ mis) |
| Annog manteision gwirfoddoli ar gyfer datblygu gyrfa a datblygiad personol. | Canolig | Cenedlaethol | Hir (18+ mis) |

# Atodiad: Uwchsgilio

| Uwchsgilio | | | |
|---|---|---|---|
| Argymhelliad/ateb | Lefel blaenori aeth | Maes ffocws | Amserlen |
| Cefnogi llwyfan dysgu canolog ar-lein | Uchel | Cenedla ethol | canolig (7-18 months) |
| Grymuso pobl ifanc drwy deilwra cyfleoedd, hyfforddiant a phrofiadau gwirfoddoli i gyd-fynd yn well â'u profiadau bywyd a'u hamgylchiadau. | Uchel | Lleol | Hir (18+ mis) |
| Datblygu uwchsgilio fel rhan annatod o brosesau achredu neu ymgysylltu blynyddol. | Canolig | Cenedla ethol | Hir (18+ mis) |
| Datblygu cynlluniau mentora ar draws rhanbarthau i gefnogi gwirfoddolwyr mewn rolau bwrdd, ymddiriedolwr a rheoli. | Canolig | Rhanbart hol | Canolig (7-18 mis) |

# Atodiad: Gwobrwyo a Chydnabod

| Gwobrwyo a chydnabod | | | |
|---|---|---|---|
| Argymhelliad/ateb | Lefel blaenoriaeth | Maes ffocws | Amserlen |
| Cydweithio â rhanddeiliaid strategol i greu cymhellion a systemau newydd, neu ehangu rhai presennol, sy'n cydnabod, yn gwobrwyo ac yn dathlu gwirfoddolwyr mewn rolau bwrdd, ymddiriedolwr a rheoli. | Uchel iawn | Cenedlaethol | Hir (18+ mis) |
| Manteisio ar gynlluniau gwirfoddoli corfforaethol i ddarparu capasiti ychwanegol. | Uchel | Rhanbarthol | Hir (18+ mis) |
| Grymuso rolau pobl ifanc drwy roi cyfrifoldeb gwirioneddol iddynt mewn amgylchedd sy'n derbyn ac yn cefnogi. | Canolig | Lleol | Hir (18+ mis) |
| Cynyddu'r gydnabyddiaeth o'r profiad bywyd a'r sgiliau y mae pobl ifanc yn eu cyfrannu at y rolau hyn, yn hytrach na dim ond profiad mwy traddodiadol a hirdymor o weithio mewn swyddfa. | Canolig | Lleol | Hir (18+ mis) |

# Atodiad: Effeithlonrwydd ac Arloesi

| Effeithlonrwydd ac Arloesi | | | |
|---|---|---|---|
| Argymhelliad/ateb | Lefel blaenoriaeth | Maes ffocws | Amserlen |
| Cydweithio â chyrff cenedlaethol i symleiddio a chyflymu prosesau a gofynion gweinyddol ar gyfer grwpiau cymunedol | Uchel | Cenedlaethol | Canolig (7-18 mis) |
| Newid iaith a chwmpas y swyddi gwirfoddoli i annog pobl ifanc i ymgysylltu â nhw. | Uchel | Cenedlaethol | Canolig (7-18 mis) |
| Creu cynlluniau rhannu capasiti sy'n cynnig cyfleoedd i recriwtio gwirfoddolwyr i'r un rôl ar draws sefydliadau lluosog. | Uchel | Rhanbarthol | Canolig (7-18 mis) |
| Datblygu cyfleoedd rhwydweithio ar draws rhanbarthau sy'n dod a gwirfoddolwyr mewn rolau bwrdd, ymddiriedolwr a rheoli ynghyd. | Uchel | Rhanbarthol | Canolig (7-18 mis) |
| Datblygu ac annog prosesau hygyrch sy'n cyd-fynd â chyfrifoldebau eraill gwirfoddolwyr, ac sy'n cydnabod yr hyn y gall gwirfoddolwyr ei wneud gyda'r amser sydd ganddynt. | Uchel | Lleol | Canolig (7-18 mis) |

# Atodiad: Grymuso Llwybrau ar gyfer Pobl Ifanc a Grwpiau a Ymyleiddiwyd

| Grymuso Llwybrau ar gyfer Pobl Ifanc a Grwpiau a Ymyleiddiwyd | | | |
|---|---|---|---|
| Argymhelliad/ateb | Lefel blaenoriaeth | Maes ffocws | Amserlen |
| Annog mwy o bwyslais ar fanteision gwirfoddoli ar gyfer datblygu gyrfa a sgiliau. | Uchel | Cenedlaethol | Hir (18+ mis) |
| Darparu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a chymorth i aelodau presennol o fyrddau a phwyllgorau er mwyn pwysleisio pwysigrwydd a manteision amrywiaeth a chynhwysiant yn eu sefydliadau. | Uchel | Rhanbarthol | Hir (18+ mis) |
| Sefydlu rhwydweithiau cymorth cryf i sicrhau datblygiad, cymorth a chadw parhaus gwirfoddolwyr amrywiol ar fyrddau ac mewn pwyllgorau yn y sector chwaraeon. | Uchel | Rhanbarthol | Canolig (7-18 mis) |
| Grymuso pobl ifanc i wirfoddoli ar lefel bwrdd, ymddiriedolwr neu reoli. | Uchel | Lleol | Hir (18+ mis) |
| Sefydlu rhaglenni datblygu wedi'u targedu at unigolion o grwpiau a ymyleiddiwyd, gan ymgorffori cymorth gan gymheiriaid, mentora a hyfforddiant ffurfiol. | Canolig | Rhanbarthol | Canolig (7-18 mis) |
| Cefnogi mwy o gysylltiadau rhwng grwpiau cymunedol a sefydliadau addysgol yn eu rhanbarth sy'n helpu i ddiwallu anghenion recriwtio gwirfoddolwyr ac anghenion dysgu ar lefel y pwyllgor. | Canolig | Rhanbarthol | Hir (18+ mis) |
| Tynnu sylw at straeon llwyddiant a chreu ymgyrchoedd sy'n arddangos taith a chyflawniadau unigolion o grwpiau a ymyleiddiwyd sydd wedi llwyddo mewn rolau ar fyrddau ac mewn pwyllgorau. | Canolig | Cenedlaethol | Canolig (7-18 mis) |